



Cyfarfod

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD IAU, 23AIN TACHWEDD, 2017

Lleoliad

Neuadd Dyfi, Aberdyfi, LL35 0NR

Pwynt Cyswllt

Glynda O'Brien

01341 424301

GlyndaOBrien@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHUYD: 15.11.17)

AELODAETH:

Cyngor Gwynedd:

Y Cyng. Dewi Owen
Y Cyng. Anne Lloyd Jones
Y Cyng. Mike Stevens

Aelodau Cyfetholedig:

Y Cyng. Bob Tyrrell
Mr Nick Dawson
Mr David Williams
Mr Huw Evans

Mr Nigel Willis
Mr Desmond George
Mr Brian Bates

Mr John Eddington

Cyngor Cymuned Aberdyfi
Aelod o Outward Bound Wales
Aelod o Bwyllgor Gwelliannau Aberdyfi
Aelod o Gymdeithas Psygodfeydd Bae
Ceredigion
Aelod o Glwb Cychod Aberdyfi
Aelod o Glwb Hwyllo Dyfi
Aelod o Gymdeithas Cenedlaethol y Bad
Achub
Aelod o Gwlb Rhwyfo Aberdyfi

Sylwedyddion:

Y Cyng. Ioan Thomas
Y Cyng. Peter Read
Dr John Jones-Morris
Y Cyng. Rob Triggs

Aelod Cabinet Datblygu'r Economi
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw

RHAGLEN

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd l'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2017-18.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd l'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2017-18.

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. COFNODION

4 - 8

I gadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2017.

6. ADRODDIAD GAN Y SWYDDOG MORWROL A PHARCIAU GWLEDIG 9 - 28

I ystyried adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

7. ETHOL SYLWEDYDDION

I ethol sylwedyddion i wasanaethu ar y canlynol:

- a) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
- b) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog
- c) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli

8. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi ar 22 Mawrth 2018.

Eitem 5

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 28 Chwefror 2017 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi

YN BRESENNOL

Y Cyng. Dewi Owen- Cadeirydd
Y Cyng. Anne Lloyd Jones – Is-gadeirydd

Y Cyng. Mike Stevens (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. David Richardson (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Y Cyng. Brian Bates (Bad Achub), Mr W Bracewell (Partneriaeth Aberdyfi), Mr Dave Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Mr Desmond George (Clwb Hwyllo Dyfi), Mr Neil Storkey (Clerc/Sylwedydd ar ran Cyngor Cymuned Aberdyfi)

Hefyd yn bresennol:

Swyddogion

Llyr Jones	-	Uwch Reolwr Economi a Chymuned
Barry Davies	-	Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig
William Stockford	-	Harbwr Feistr Aberdyfi
Glynda O'Brien	-	Swyddog Cefnogi Aelodau
Mererid Watt	-	Cyfieithydd

Ymddiheuriadau: Mr Nigel Willis (Clwb Cychod Aberdyfi), Mr James Bradbury-Willis (Siambr Fasnach Aberdyfi)

Fel mater o drefn o ran aelodaeth, adroddwyd y deallwyd nad oedd Siambr Fasnach Aberdyfi yn bodoli mwyach ac oni ddylid cywiro'r rhestr sefydliadau ar y rhaglen.

Mewn ymateb, adroddodd y Swyddog Cefnogi Aelodau y byddir yn anfon at yr oll sefydliadau/ mudiadau ym mis Mai i wneud cais am gyfansoddiadau / cofnodion cyfarfodydd blynyddol, a.y.b. ac y byddai modd bryd hynny cywiro'r rhestr.

1. CYDYMDEIMLO

Cyfeiriodd y Cadeirydd at brofedigaeth a ddaeth i ran Mr Dave Williams, cynrychiolydd Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi ar y pwyllgor hwn, drwy golli ei wraig yn ddiweddar. Mynegwyd cydymdeimlad dwysaf gyda Mr Williams a gofynnwyd i bawb sefyll fel arwydd o barch tuag ato a'u deulu yn eu colled drist.

2. DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. COFNODION

Cyflwynwyd: Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 15 Tachwedd 2016.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

4. ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL

Cyflwynwyd: Adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, Mr Barry Davies, yn diweddarar y pwyllgor ar faterion rheolaethol yr Harbwr gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-

(a) **Cod Diogelwch Morwrol**

Nodwyd bod y cod diogelwch yn ddogfen fyw a phwysigrwydd i dderbyn sylwadau yn rheolaidd ar y cynnwys fel y gall gael ei adolygu ac bod y ddogfen yn berthnasol i weithgareddau'r Harbwr. Tynnwyd sylw bod y Gwasanaeth yn disgwyl adolygiad gan arbenigwr allanol Asiantaeth Gwylwyr y Glannau ond oherwydd diffyg capasiti staffio nid oedd hyn wedi digwydd ac fe fyddir yn ail-drefnu maes o law.

Cyfeiriwyd at lansiad Ymgyrch Neifion a oedd wedi ei gynnal yn ddiweddar yn Ysgol Tywyn yn dilyn adroddiadau fod beicwyr môr yn aflonyddu a phoeni dolffiniaid oddi ar arfordir Abersoch a Thywyn.

Mewn ymateb i'r uchod, nododd Aelod bryder nad oedd swyddogion ac Aelodau yn ymwybodol o ddigwyddiadau lleol ac y dylid sicrhau gwell cyfathrebu rhwng Adrannau i'r dyfodol.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod ac y byddai'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn dilyn y pryder i fyny gyda'r Adran berthnasol.

(b) **Mordwyo**

Adroddwyd bod bwi'r "Fairway" wedi dod oddi ar ei safle yn dilyn storm "Doris" yn ddiweddar a sicrhawyd y byddir yn anfon Rhybudd i Forwyr yn ddi-oed ac y byddai trefniadau i'w gwneud gyda'r contractwr lleol i'w osod yn ôl ar y safle.

Ychwanegwyd bod cymhorthydd ar y morglawdd yn ardal Tywyn i'w roi yn ôl ar safle ond y byddai'n ofynnol sicrhau bod y llanw a'r tywydd yn dderbyniol i gyflawni'r gwaith.

Yn gyffredinol, er gwaethaf y tywydd garw yn ystod storm "Doris" 'roedd y cymhorthyddion eraill yr harbwr ar eu safleoedd priodol, er hynny, byddir yn sicrhau bod pob cymhorthydd sydd allan o safle yn cael eu ail leoli cyn 1 Ebrill 2017.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(c) **Cynnal a Chadw**

Amlinellodd yr Harbwr Feistr ar y gwaith a gyflawnwyd dros y gaeaf sef:

- Pont y Brics
- Atgyweirio o gwmpas yr Harbwr
- Atgyweirio ochr y Gerddi wrth ymyl Swyddfa'r Harbwr
- Gosod bariau / rhwystrau ar ochr y promenâd i atal y tywod ddod drosodd

Gobeithir glanhau'r lliithrfa'r Bad Achub cyn dechrau'r tymor ynghyd â manion eraill gan sicrhau bod popeth yn barod erbyn Gwyliau'r Pasg.

Apeliwyd ar Aelodau'r Pwyllgor hwn i gysylltu gyda'r Harbwr Feistr ar faterion gweithredol fel bod llif y gwaith yn rhedeg yn esmwyth.

Derbyniodd y Gwasanaeth air o ddiolch gan gynrychiolydd ar ran Clwb Cychod Aberdyfi am y gwasanaeth a dderbynir gan swyddogion yr Harbwr.

(ch) **Materion Staff**

(i) Adroddwyd bod cytundeb Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi (tymhorol) wedi ei ymestyn ar drefniant tri diwrnod yr wythnos hyd at ddiwedd Mawrth 2017 yn hytrach na symud staff ac sydd wedi profi'n gost effeithiol. Bwriedir cyflogi dau Gymhorthydd Harbwr (1 ym Mhorthmadog ac 1 ar gyfer Aberdyfi / Tywyn) yn llawn amser o'r 1 Ebrill ymlaen a fydd yn cael ei gyllido o gyllideb y Gwasanaeth Morwrol.

(ii) Bwriedir ystyried cyflogi Cymhorthydd Traeth yn Aberdyfi dros yr Haf o gyllideb y Gwasanaeth a fydd oddeutu £4,000 ac efallai edrych ar bosibiliadau o ddenu arian o ffynonellau lleol eraill. Rhagwelir byddai'r Gwasanaeth yn cysylltu gyda'r Cyngor Cymuned er ceisio cefnogaeth cyllidol lleol.

(iii) Awgrymwyd ymhellach oni fyddai'n bosibl cyflogi myfyriwr ar benwythnosau a thymor y gwyliau o ddechrau Gorffennaf i Fedi.

(iv) Canmolwyd gwaith y Cymhorthyddion Traeth a thra'n derbyn nad oedd yn wasanaeth achub bywyd roedd eu gwaith yn fodd o fedru cynnig gwybodaeth leol a sicrwydd i unigolion a gwelir eu cyflogi yn fantais enfawr. Roedd y Cymhorthyddion Traeth o gymorth hefyd i'r Harbwr Feistr i fedru ei ryddhau o orfod ymdrin â materion ar y traeth megis plant methu dod o hyd i'w rhieni ar ôl bod yn y môr, cymorth cyntaf, a.y.b.

(v) Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod yn rhaid ystyried y mater yn ehangach a'r Cyngor yn awyddus i sicrhau bod diogelwch yn flaenoriaeth gan gofio bod cyfnod o adolygu a newidiadau o ran toriadau cyllidebol, a.y.b.

(vi) O safbwynt arwyddion diogelwch yr Harbwr a'r traethau, eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y Gwasanaeth wedi cynnal adolygiad o'r holl arwyddion yn Abermaw mewn ymgynghoriad gyda'r Bad Achub. Roedd yr adolygiad hwn wedi rhoi sylfaen o safbwynt cynnal adolygiad yn Aberdyfi a Thywyn sydd i'w gynnal ym mis Mawrth / Ebrill ac yn dilyn hyn gellir pwysu a mesur yr anghenion ynghyd â'r costau. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod a fyddai'r arwyddion mewn lle ar gyfer y tymor hwn, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ymhellach bod yn rhaid trafod addasrwydd yr arwyddion, cysondeb yng nghyd-destun traethau eraill y Sir, costau cynnal a chadw'r arwyddion, a.y.b. ond sicrhawyd y byddir yn cysylltu gyda'r Aelodau lleol yn fuan yn dilyn cynnal yr adolygiad yn Aberdyfi i drafod ymhellach.

(vii) Ategodd sawl Aelod bwysigrwydd i osod arwyddion addas ar y safle ac y dylid gweithredu yn ddi-oed ar gyfer y tymor hwn.

(viii) Mewn ymateb, ychwanegodd cynrychiolydd o'r Bad Achub y byddai'n gwthio'n galed i weithredu'r uchod gan fod dyluniad sylfaenol yr arwyddion wedi eu trafod, ac ni ragwelai pam na ellir ei weithredu'n fuan. Nododd ymhellach bod presenoldeb y Cymhorthyddion Traethau ar y traeth am y tymor twristiaeth yn unig ond bod arwyddion yno i'w gweld drwy'r amser a phe byddir yn cael arwyddion gwell, teimlwyd y byddai hyn yn fanteisiol ar gyfer addysgu unigolion o gyfrifoldeb am ddiogelwch.

Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ddiweddarau Aelodau'r Pwyllgor hwn ynglŷn â datblygiad yr adolygiad arwyddion traethau.

(d) **Materion eraill**

(i) Wal y Cei

Derbyniwyd diweddariad gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ar yr uchod gan nodi bod trafodaethau yn mynd rhagddynt rhwng swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri a Chyfoeth Naturiol Cymru o safbwynt yr elfen amgylcheddol a hyderir y byddai'r Gwasanaeth yn gallu cyflwyno cynllun busnes i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Mawrth. Pwysleisiwyd bod y Cyngor wedi adnabod 25% o gostau'r cynllun hwn.

Mynegwyd siom gan yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned nad oedd y caniatâd cynllunio hyd yma wedi ei gadarnhau ond o safbwynt edrych i'r dyfodol nodwyd bod y cynlluniau mewn trefn a bod amrywiol gamau i'r broses sydd eisoes i'w trefnu. Nodwyd ymhellach nad oedd unrhyw bryder ynglyn â'r cais cynllunio ond bod pryder ynglyn â dyfodol ariannu rhaglenni Ewrop yn sgil Brexit.

Mewn ymateb i bryder y Cadeirydd ynglyn â'r amser yn llithro a dirywiad yn strwythur wal y cei, eglurodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod gwaith monitro ar y wal yn digwydd a sicrhawyd bod oddeutu 5 mlynedd yn weddill o oes i'r strwythur pe byddai'r rhaglen yn llithro hyd at 2020. Tra'n derbyn bod y strwythur yn dirwyn i ddiwedd ei oes, cadarnhawyd bod angen buddsoddiad yn y tymor byr / canolig ac felly bod ychydig o amser wrth gefn. Roedd y datblygiad yn un ehangach nid yn unig ar gyfer isadeiledd yr Harbwr ond hefyd ar gyfer atal llifogydd.

O safbwynt pryder amlygwyd gan aelod bod cyflwr oddeutu 95% o anodau'r strwythur wedi dirywio yn arw, sicrhawyd bod y gwaith hwn i'w gyflawni o fewn y cynllun gwaith.

Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r uchod.

(b) Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gyfleu pryder y Pwyllgor Ymgynghorol ynglyn a'r oediad mewn prosesu'r cais Cynllunio.

(ii) Tir Comin / tir ystorfa, gwastraff

Adroddwyd bod yr uchod yn parhau yn broblemus i'w ddatrys oherwydd diffyg contractwyr lleol i ymgymryd â'r gwaith clirio. Disgwylir am amcan bris gan gwmni o Gaernarfon ac yn y cyfamser roedd y Gwasanaeth yn ceisio am brisiau ar gyfer gosod ffens uchel a giât sydd i'w gyllido o gyllideb y Gwasanaeth. Byddai hyn yn galluogi i fedru cael rheolaeth gadarn dros y tir.

Siomedig ydoedd nodi nad oedd cydweithrediad gan y pysgotwyr o ystyried bod cymaint o offer pysgota ar y safle sydd heb eu symud ers blynyddoedd lawer. Bydd yn rhaid parhau i geisio eu cydweithrediad ac erfyn ar gynrychiolydd y pysgotwyr i drafod hyn gyda'r pysgotwyr fel mater brys.

Ategodd y Cadeirydd ei fod yn bryd i roi ffens i fyny a hyderir y byddai hyn yn atal unigolion rhag gwaredu gwastraff ar y safle.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod a gofyn i'r Gwasanaeth Morwrol barhau gyda'u hymdrechion i ddatrys y broblem o glirio'r safle a gosod ffens o amgylch y tir.

(f) Symud Tywod

Adroddwyd y bydd contractwr yn cychwyn ar y gwaith o symud tywod diwedd mis Mawrth.

Mewn ymateb i ymholiad Mr Des George, ynglyn â faint o'r tywod a fyddir yn symud, a sicrwydd bod trafodaethau gyda'r Clwb Golff, addawodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n holi'r swyddog perthnasol ac yn adrodd yn ôl.

Nodwyd ymhellach bod y lefelau traeth yn newid yn sylweddol.

Penderfynwyd: Derbyn a nodir' uchod.

(g) Materion Ariannol

Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr Aelodau drwy'r fantolen ariannol gan nodi fel a ganlyn:

- bod tanwariant o £6,075 yng nghostau staff
- bod tanwariant o £8,000 yng nghostau tiroedd ac eiddo
- bod tanwariant o £50 yng nghostau cwch a cherbydau
- bod tanwariant o £1,200 yng nghostau offer a chelfi
- bod targed yr incwm yn fyr o £8,000

Yn gyffredinol roedd y sefyllfa ariannol yn edrych yn addawol ond rhaid cofio bod oddeutu £12,000 yng nghyllideb Aberdyfi o gyllideb ychwanegol ac efallai i'r dyfodol y bydd angen ei ddiddymu o'r gyllideb er defnydd ar gyfer gwariant o dan bennawd arall.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(ng) Ffioedd a thaliadau 2017/18

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y bydd chwyddiant ar gyfer 2017/18 yn parhau yn 1.85% ac i gwrdd â tharged incwm awgrymir cynyddu'r ffioedd 2% ar gyfartaledd. Bwriedir cynyddu ffioedd angori cychod masnachol i 6%.

Tynnwyd sylw bod ffi wedi ei ychwanegu gan Stad y Goron sydd yn hawlio £25 gan bob unigolyn sydd ag angorfa yn yr Harbwr a gofynnir i'r Cyngor, fel awdurdod yr Harbwr, gasglu'r ffi hwn ar ran Stad y Goron.

Nododd yr Harbwr Feistr ei fod wedi cysylltu gyda chwsmeriaid a hyd yn hyn mai dim ond 2 oedd wedi datgan nad oeddynt yn adnewyddu'r hawl i angori.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

5. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Penderfynwyd: Er bod y cyfarfod nesaf wedi ei bennu ar gyfer 10 Hydref 2017, gofynnwyd i'r Swyddog Cefnogi Aelodau ail-drefnu dyddiad ar ddyddiad cyfleus ym mis Tachwedd gan y byddai'n amserol o ran cyflwyno adroddiadau cyllidol.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a.m. a daeth i ben am 11.45 a.m.

CADEIRYDD.

Eitem 6

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi
DYDDIAD	23 Tachwedd 2017
TEITL	Diweddariad ar Faterion Rheolaethol yr Harbwr
AWDUR	Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig

1. Cyflwyniad

- Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion yn ymwneud â rheolaeth, diogelwch a datblygiad yr Harbwr ac i swyddogion dderbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion yn ymwneud a Harbwr Aberdyfi.
- Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno diweddariad cryno i sylw'r Pwyllgor ar faterion yr Harbwr am y cyfnod Mawrth 2017 hyd at Hydref 2017 ac i dderbyn adborth gan yr Aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr harbwr.
- Yn 2014 penderfynwyd gan Gabinet y Cyngor byddai'r Pwyllgorau Harbyrau Aberdyfi, Pwllheli ac Abermaw yn cynnwys: -
 - Hyd at 4 Aelod Lleol Cyngor Gwynedd
 - Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sydd yn dal Portffolio'r Awdurdod Harbwr
 - Un Aelod Cyngor Tref/Cyngor Cymuned
 - Hyd at saith aelod arall i gynrychioli gwahanol fuddiannau defnyddwyr yr harbwr
- Yn ystod yr haf bu i'r Swyddog cefnogi aelodau ohebu gyda phob cynrychiolydd mudiadau'r harbyrau a enwir uchod yn atgoffa o'r gofyn fod mudiadau yn enwebu cynrychiolydd am y flwyddyn sydd i ddod gan hefyd anfon copi o'r cyfansoddiad a chofnodion o gyfarfod blynyddol y grwpiau perthnasol. Bydd yn hanfodol bod y wybodaeth wedi ei gyflwyno i'r Cyngor ble yn berthnasol.
- Mae Pwyllgor Harbwr Porthmadog yn bwyllgor harbwr statudol ac wedi ei ffurfio yn unol â Rhan 6 (2) (a-j) Gorchymyn Diwygio Harbwr Porthmadog. Mae'r Gorchymyn yn cyfarwyddo bod yna 15 Aelod yn eistedd ar Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog. Mae rhestr gyflawn o'r grwpiau a mudiadau a fydd yn cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor Harbwr i'w gweld yn y Gorchymyn Harbwr. Mae copi o'r Gorchymyn ar gael i Aelodau.

2. Harbwr Aberdyfi

- Yn 2017/18 roedd niferoedd cychod ar angorfeydd yn yr Harbwr fel a ganlyn; -
- Roedd cyfanswm 78 cwch ar angorfa flynyddol yn 2017. Mae hyn yn cymharu gyda 79 cwch a fu ar angorfa yn 2016.
- Ar y cyfan, wrth gymharu holl harbyrau Cyngor Gwynedd gwelwyd cynnydd bychan mewn nifer cwsmeriaid dros y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys cynnydd yn Hafan Pwllheli. Yr unig eithriad o gysondeb yn y nifer gychod ar angorfeydd oedd yn Noc Fictoria yng Nghaernarfon ble gwelwyd lleihad mewn nifer gychod ar angorfa pontŵn a hyn oherwydd anawsterau angori oherwydd cynnydd yn y llaid a olygai diffyg dyfnder dwr yn y Doc.
- O'r nifer cychod sydd ar angorfa yn yr Harbwr mae 72% yn gychod pŵer gyda 28% yn gychod Hwyllo. Mae 46% o'r cwsmeriaid yn breswyl yng Ngwynedd gyda 54% yn breswyl tu allan i Wunedd.

- Cofrestrwyd 903 o Gychod Pŵer yng Ngwynedd yn 2017 sydd yn cymharu gydag 1011 a fu wedi cofrestru yn 2016. Roedd 53 cwch pŵer wedi cofrestru yn harbwr Aberdyfi ac mae hyn yn cymharu gyda 57 cwch a fu wedi cofrestru yn 2016. Cofrestrwyd 9 Cwch Pŵer yn Dywyn gyda 7 wedi cofrestru yn 2016. Disgwylir bydd y niferoedd gynyddu gan na fod cofrestr Morfa Nefyn wedi ei dderbyn hyd yma.
- Cofrestrwyd 725 o Fadau Dwr Personol yng Ngwynedd yn 2017. Cymharai hyn gydag 729 a fu wedi cofrestru yn 2016. Yn Harbwr Aberdyfi fe gofrestrwyd 28 Bad Dwr Personol ac mae hyn yn cymharu gydag 29 Bad Dwr Personol a fu wedi cofrestru yn 2016. Cofrestrwyd 6 Bad Dwr Personol yn Nhywyn gyda 4 wedi cofrestru yn 2016.

3. Cod Morwrol Diogelwch Porthladdoedd

- Ym mis Tachwedd 2016 fe fu i'r Adran Drafnidiaeth o'r Llywodraeth gyhoeddi addasiadau i'r Cod Diogelwch Porthladdoedd. Mae copïau o'r cod newydd wedi ei ddsbarthu i holl Aelodau'r Pwyllgorau Ymgynghorol ac mae copi hefyd ar gael ar safle we'r AMGG. Mae'r Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig yn adolygu'r Cod Diogelwch ar gyfer harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd yn rheolaidd er sicrhau fod holl systemau diogelwch ein harbyrau yn cyd-fynd gyda gofynion y cod a disgwyliaidau ein cwsmeriaid a hefyd er cydymffurfio a gofynion lechyd a Diogelwch.
- Mae Adran Trafnidiaeth y Llywodraeth wedi adolygu ac wedi cyhoeddi canllawiau 'Ymarferiadau da Mewn Gweithgareddau Harbyrau' sydd yn gysylltiedig gyda'r Cod Diogelwch Morol ac mae copi o'r ddogfen ar gael i Aelodau ar gyflwyniad cais i'r gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig.
- Rhwng y 19eg ac yr 21ain Medi 2017 fe gynhaliwyd arolygiad trylwyr gan brif archwilwyr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau o drefniadau a systemau diogelwch presennol harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd er sicrhau cydymffurfiaeth a'r Cod Diogelwch Porthladdoedd. Barn gychwynnol yr archwilwyr oedd bod y Cyngor yn cyd-fynd gyda'r gofynion yn gyffredinol ond bod angen addasu rhai elfennau sydd yn gysylltiedig â chofnodi dyletswyddau a nodi Deiliwr Dyletswydd. Fe fu i'r archwilwyr ymweld ag harbyrau Aberdyfi, Porthmadog a Phwllheli yn ystod yr archwiliad.
- Mae Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau wedi cyflwyno adroddiad drafft ysgrifenedig i'r Gwasanaeth yn amlinellu'r materion a fydd angen sylw gan y Cyngor. Unwaith bydd adroddiad terfynol wedi ei rhyddhau gan yr Asiantaeth Forwrol a gwylwyr y Glannau sicrhau bod y Pwyllgorau Ymgynghorol yn derbyn copi o'r adroddiad. Pan fydd adroddiad yr archwilwyr wedi ei dderbyn fe fydd gan y Cyngor gyfnod penodol i addasu trefniadau ac fe fydd Asiantaeth Gwylwyr y Glannau yn ail ymweld â'r gwasanaeth oddi fewn 12 mis o gyflwyno'r adroddiad ble bydd disgwyl bod argymhellion a gyflwynwyd yn yr adroddiad wedi eu gweithredu arnynt.
- Yn dilyn trafodaeth gyda'r archwilwyr cytunwyd mewn egwyddor byddai yn fuddiol bod dyddiad yr ail ymweliad yn cyd-fynd a dyddiad Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr. Awgrymwyd i'r archwilwyr byddai yn fuddiol bod yr archwilwyr yn mynychu cyfarfod o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog gan wahodd cynrychiolwyr Pwyllgorau Ymgynghorol Aberdyfi, Abermaw a Pwllheli i'r cyfarfod. Byddai hyn yn galluogi Aelodau i dderbyn gwybodaeth gan yr archwilwyr ynglŷn â phrif faterion y Cod Diogelwch a'r disgwiliad ar y Cyngor i gydymffurfio gyda'r Cod Diogelwch.
- Pwysleisir na chyflwynwyd unrhyw rybudd o welliant yn ymwneud a materion diogelwch difrifol neu ddiffygion yn yr harbyrau. Nodwyd ganddynt fod cyfle i wella ar dacluswydd oddi amgylch y cei harbwr Aberdyfi gan fod yna nwyddau a rhaffau wedi eu cadw ar y cei mewn ffordd a allasai achosi risg. Datganwyd pryder ynglŷn â nifer gerbydau fydd yn parcio ar ochr y cei yn Aberdyfi ar adegau prysur yr haf. Ni chyflwynwyd sylw ar safonau Pwllheli neu Porthmadog. Disgwylir hefyd bydd yr adroddiad yn Tud. 10

- Er bod y Cod Diogelwch Porthladdoedd yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan y gwasanaeth mae yn anorfod atgoffa Aelodau o'r Pwyllgorau Ymgynghorol o'r ddyletswydd arnynt i gyflwyno sylwadau ar addasrwydd y Cod Diogelwch ac i dderbyn sylwadau ar drefniadau gwaith yr harbyrau fel gallai'r Cod Diogelwch gael ei adolygu er sicrhau bod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, priodoldeb lleoliadau cymhorthion mordwyo, diogelwch cyffredinol a gwaith dydd i ddydd yr harbwr.
- Nid oes unrhyw fater neu achos o bryder wedi ei gyflwyno at sylw'r gwasanaeth gan Aelodau o'r Pwyllgor Harbwr yn ystod 2017 ac sydd yn gysylltiedig â chyfrifoldebau a dyletswyddau statudol neu yn ymwneud a materion diogelwch yr Harbwr.

4. Materion Gweithredol

- **Mordwyo**

- Cafwyd archwiliad manwl gan archwilwyr Awdurdod Goleudai Tŷ'r Drindod ar yr 2il Awst 2017. Mewn cymhariaeth ac adroddiadau blaenorol roedd adroddiad 2017 yn cadarnhau gwelliant pellach yng nghyflwr a lleoliadau Cymhorthion Mordwyo Harbwr Aberdyfi.
- Mae'r archwiliwr wedi tynnu sylw unwaith yn rhagor fod Cymhorthydd Mordwyo N-02909, sef cymhorthydd mordwyo morglawdd Tywyn yn parhau yn ddiffygiol ac angen sylw brys gan na fod y cymhorthydd ar safle. Mewn ymateb i Dŷ'r Drindod mae'r Gwasanaeth Morwrol wedi adrodd fod contractwyr wedi pennu dyddiad i ail osod y cymhorthydd ar sawl achlysur ond na fod y tywydd wedi caniatáu i'r gwaith gael ei gwblhau. Mae'r Gwasanaeth wedi tynnu sylw Ymgynghoriaeth Gwynedd i'r diffyg ac rydym nawr yn rhagweld bydd yn cael ei ail leoli cyn gynted a fydd bosibl yn 2018.
- Mae rhaglen waith cynnal a chadw'r Cymhorthion Mordwyo'r Harbwr wedi ei gwblhau a hyn yn unol â chaniatâd, cyfarwyddwyd ac arweiniad y Pwyllgor Ymgynghorol. Fe fydd diweddariad o'r sefyllfa bresennol yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau gan y Prif Swyddog Harbyrau yn y cyfarfod.
- Mae 2 Rybudd i Forwyr mewn grym yn harbwr Aberdyfi. Nid yw Bwi Rhif 1 neu fwi rhif 2 ar ei safle priodol ac fe gynghorir morwyr i fordwyo gyda gofal yn yr ardal hon. Bydd y bwiau yn cael ei ail leoli unwaith bydd y tywydd yn caniatáu a pan fydd y contractwr ar gael i ymgymryd â'r gwaith. Mae adroddiadau PANAR yn cael eu cyflwyno yn chwarterol i Awdurdod Tŷ'r Drindod.
- Cyflwynwyd 1 adroddiad i Fwrdd Archwilio Damweiniau Morol (MAIB) mewn perthynas â digwyddiad yn harbwr Aberdyfi. Roedd hyn yn adrodd ar unigolyn a ddisgynnodd oddi ar fwrdd cwch bleser tra bod y cwch yn mordwyo oddi fewn ardal yr harbwr. Cafodd yr unigolyn anafiadau gan fod propeller y cwch wedi taro yn erbyn yr unigolyn wrth i'r unigolyn ddisgyn oddi ar fwrdd y cwch. Yn ffodus iawn ni chafodd yr unigolyn anafiadau difrifol.

- **Cynnal a chadw**

- i. Cyflwynir trefniadau a rhaglen waith ar gyfer cynnal a chadw elfennau allweddol harbwr Aberdyfi gan yr Harbwr Feistr yn y cyfarfod.
- ii. Bydd yr Harbwr Feistr yn cyflwyno rhaglen waith cynnal a chadw a fu i'w gweithredu yn Harbwr Aberdyfi ystod y cyfnod Hydref - Rhagfyr 2017 ac yn rhoi amlinell o'r rhaglen waith a fu i'w gweithredu yn y cyfnod Ionawr - Mawrth 2018. Gofynnir am adborth aelodau'r Pwyllgor am unrhyw waith ychwanegol bydd angen ei ystyried a'i gynnwys ar y rhaglen waith.

- **Materion Staff**

- i. Mae cyfnod cyflogaeth Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi (tymhorol) wedi dod i ben ers y 30ain Medi 2017. Er sicrhau cefnogaeth a pharhad i'r gwasanaeth ar draws y sir mae'r gwasanaeth yn ystyried ymestyn cyfnod cyflogaeth Cymhorthion Harbwr Aberdyfi, Porthmadog ac Abermaw hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2017. Fe fydd unrhyw gyfnod cyflogedig estynedig yn ddibynnol ar raglen waith yr harbwr ac wrth gwrs yn ddibynnol ar ganlyniad adolygiad cyllid ail chwarter 2017/18.
- ii. Fe fydd y tri chymhorthydd harbwr yn rhan o'r tîm ehangach y gwasanaeth ac fe fydd ymestyn y cyfnod cyflogaeth yn sicrhau bydd yn bosibl ymateb i ddigwyddiadau arfordirol a chynorthwyo gyda thargedau rhaglen waith cynnal a chadw harbyrau Aberdyfi, Porthmadog ac Abermaw dros fisoedd y gaeaf.

- **Materion Harbwr a Thiroedd**

- i. **Materion Pysgotwyr.** Mae'r Gwasanaeth yn parhau i ddatgan pryder ynglŷn â chawell, rhaffau ac offer pysgota sydd yn cael ei gadw ar ochr y cei ac ar y lanfa yn enwedig yn ystod tymor yr haf. Yn anffodus nid yw'r offer a chelfi yn cael ei gadw yn daclus ac mae hyn yn achosi risg i ddefnyddwyr eraill yr harbwr. Oni bai fod cydymffurfiaeth gyda gofynion yr harbwr i dacluso'r safle ni fydd dewis gan y Cyngor ond addasu'r trefniadau presennol heb oedi ac fe fydd yr Harbwr Feistr yn gyfrifol am weithredu.
- ii. Yn ystod yr haf mae nifer ddefnyddwyr masnachol yr harbwr yn parcio cerbydau ar ochr y cei a hyn am gyfnodau hir. Mae gyrru a pharcio cerbydau ar y rhan hon o'r harbwr yn risg uchel ac fe fydd gofyn na fod cerbydau yn cael mynediad at wal y cei a pharcio ar y cei am gyfnodau hir. Fe ganiateir mynediad i gerbydau ar gyfer llwytho a dad lwytho nwyddau neu bysgod.
- iii. Rydym yn atgoffa pysgotwyr sydd yn storio offer ar y cei i sicrhau fod yr holl offer yn ddiogel ac er sicrhau fod yr offer ddim yn achosi unrhyw risg i ddefnyddwyr eraill yr Harbwr. Wrth gydnabod pwysigrwydd gwaith y pysgotwyr mae'n angenrheidiol cadw trefn ar yr holl offer bysgota. Unwaith yn rhagor eleni mae pysgotwyr masnachol wedi derbyn arweiniad gan y Gwasanaeth bod angen i bob rhaff gael ei gadw mewn blwch pwrpasol ac na fod yna unrhyw offer yn rhwystro mynediad at wal y cei neu at offer achub bywyd sydd wedi eu lleoli oddi amgylch yr harbwr.
- iv. Cyflwynwyd sylw gan bysgotwyr lleol na fod cynrychiolydd sydd yn cynrychioli pysgotwyr masnachol ar Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi wedi mynychu'r ddau gyfarfod diwethaf. Mae pysgotwyr Aberdyfi yn awyddus iawn i sicrhau fod eu mudiad a diwydiant yn cael ei gynrychioli ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol at y dyfodol. Gofynnwyd ganddynt fod eu cymdeithas yn sicrhau fod cynrychiolydd yn mynychu pob cyfarfod er sicrhau fod materion sydd yn ymwneud a'r pysgotwyr yn cael ei gyflwyno ger bron y Pwyllgor.
- v. **Wal y Cei.** Fe fydd diweddariad ynglŷn â chynlluniau a datblygiadau diweddaraf wal y cei yn cael ei gyflwyno i Aelodau yn y cyfarfod.
- vi. **Gwastraff Anghyfreithlon - Tir Comin** Mae pryder fod gwaredu anghyfreithlon ar dir dan gyfrifoldeb y Cyngor ger y Clwb Golff yn parhau. Yn anffodus, oherwydd prinder Adnoddau a darparwyr addas yn lleol mae'r Gwasanaeth wedi methu a chomisiynu contractwr i ymgymryd â gwaith clirio'r gwastraff. Er bod peth oedi ar y gwaith rydym nawr yn anelu i gwblhau'r gwaith cyn diwedd mis Mawrth 2018. Fel ac adroddwyd eisoes cafodd gwastraff math 'asbestos' ei waredu yn anghyfreithlon ar y tir ac fe fydd hyn yn golygu bydd costau uchel i glirio'r safle.
- vii. Mae yn allweddol bwysig fod unigolion sydd tyn berchen offer pysgota ar y safle yn sicrhau fod eu holl offer yn daclus ac wedi ei storio yn gywir. Yn anffodus ni dderbyniwyd cydweithrediad ar hyn yn ystod 2017. Yn ystod y gwaith clirio pwysleisiwn y bydd unrhyw offer pysgota yn cael ei

waredu pe bydd y Gwasanaeth o'r farn na fod yr offer wedi ei storio yn gywir a phe na fod defnydd i'r offer. Pwysleisir fod cynrychiolwr y Gymdeithas Bysgota yn sicrhau fod yna neges glir ynglŷn â'r bwriad yn cael ei gyflwyno i'r pysgotwyr heb oedi.

- viii. Unwaith bydd y gwaith wedi ei gwblhau bydd y Gwasanaeth yn trefnu i osod ffens ddiogelwch ar y safle er gwahardd mynediad i rai heb awdurdod. Mae dyfynbrisiau cychwynnol yn rhoi arweiniad dylai'r uned neilltuo hyd at £8K tuag at y gwaith ffensio.
- ix. **Dwr Ymdrochi** - Bydd Dwr Ymdrochi prif draeth Aberdyfi a dŵr ymdrochi Traeth y Fynwent yn parhau i'w fonitro yn rheolaidd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac fel rhan o gynllun ehangach mae Dŵr Ymdrochi 'Traeth y Fynwent' hefyd yn parhau i'w brofi gan Gyfoeth Naturiol Cymru er sicrhau bod dŵr ymdrochi safon uchel yn ardal Aberdyfi. Mae canlyniadau arbrefion 2017 yn edrych yn addawol ac rydym yn rhagweld bod Dŵr Ymdrochi harbwr Aberdyfi wedi gwella yn ystod 2017 mewn cymhariaeth a 2016.
- x. **Arwyddion Diogelwch.** Mae Mudiad y Bad Achub wedi cynnal arolwg arwyddion ar draethau Aberdyfi a Thywyn. Mae'r adroddiad drafft wedi ei gylchredeg i'r Aelodau Lleol Etholedig yn gwahodd sylwadau ar y ddogfen drafft. Rhagwelir bydd yr Harbwr Feistr a'r Uwch Swyddog Traethau yn cwrdd gyda chynrychiolwr Mudiad y bad Achub yn ystod yr hydref er asesu addasrwydd y lleoliadau a fu wedi eu hadnabod fel safleoedd addas ar gyfer lleoli'r arwyddion. Rhagwelir bydd arwyddion newydd wedi eu lleoli yn y lleoliadau mwyaf addas cyn mis Ebrill 2018.

5. Materion Ariannol

- Mae crynodeb o gyllideb yr Harbwr at ddiwedd Chwarter 2 ynghyd ac adroddiad cyllid terfynol 2016/17 wedi ei atodi.
- Yn ystod y cyfnod, bu'n ofynnol i ymrwymo adnodd cyllid ar gyfer y canlynol: -
 - Cynnal a chadw a phwrcasu Cymhorthion Mordwyo a Llusernau
 - Cynnal a chadw angorfeydd y Cyngor.
 - Ymestyn cyfnod cyflogaeth staff.
 - Cynnal a chadw tiroedd. Gwaredu gwastraff tir comin
 - Peiriannau newydd Cwch Patrol Harbwr Aberdyfi (prosiect wedi ei ohirio gyda tharged adolygol i'w gwblhau cyn Mawrth 2018)
 - Cynnal a chadw llwybr y 'Boardwalk'
- **Ffioedd a Thaliadau 2017/18.** Atodir taenlen ffioedd arfaethedig Harbwr Aberdyfi a ffioedd lansio ar gyfer 2018. Rhagwelir bydd chwyddiant Harbyrau ar gyfer 2018/19 yn 1.78%. Er cwrdd â her cyllideb a tharged incwm y gwasanaeth argymhellir fod ffioedd Harbwr Aberdyfi yn cynyddu 2% ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19.
- Pwysleisir mai drafft yn unig sydd wedi ei gyflwyno ger bron Aelodau ac mae'r ffioedd yn ddarostyngedig ar dderbyn cadarnhad gan yr Arweinydd Portffolio yn fuan yn 2018 cyn eu cyhoeddi.
- Mae cynnydd chwyddiant 2018/19 fel a ganlyn: -

i. Traethau	- 3.1%
ii. Hafan	- 1.73%
iii. Harbyrau	- 1.78%
iv. Doc Fictoria	- 1.45%
v. Parc Padarn	- 3.2%

6. Digwyddiadau

- Trefnwyd y digwyddiadau canlynol yn Harbwr Aberdyfi yn 2017: -
- Digwyddiad Gŵyl Fwyd Aberdyfi a gynhaliwyd ar y 19eg Awst 2017. Oherwydd rhagolygon tywydd garw roedd angen newid lleoliad y brif ŵyl. Mawr obeithir bydd yr ŵyl yn parhau ac yn cael ei gynnal unwaith yn rhagor yn 2018.
- Digwyddiadau blynyddol a drefnwyd gan wirfoddolwyr Clwb Hwyllo Dyfi. Nifer ddigwyddiadau drwy'r tymor.
- Digwyddiadau a drefnwyd gan wirfoddolwyr Clwb Rhwyfo Dyfi.
- Digwyddiad Gŵyl Banc Awst (Dyfi Fest) a drefnwyd gan grŵp cymunedol. Bydd angen adolygu'r gweithgareddau a ganiatawyd ar y cei fel rhan o'r digwyddiad hwn gan fod gan y gwasanaeth bryder ymglywn a rhai o'r gweithgareddau. Byddem yn trafod hyn gyda'r trefnwyr yn 2018.

Uned Morwrol / Maritime Unit
Ystadegau angorfeydd – Mooring statistics

<i>Harbwr Harbour</i>	<i>Nifer o Angorfeydd Available no of moorings</i>	<i>Preswylydd Occupancy</i>	<i>Preswyl yng Ngwynedd Residing in Gwynedd</i>	<i>Eraill Others</i>
<i>Aberdyfi 2011</i>	120	95 (79.2%)	45 (47.4%)	50 (52.6%)
<i>Aberdyfi 2012</i>	120	86 (71.7%)	37 (43.0%)	49 (57.0%)
<i>Aberdyfi 2013</i>	120	80 (66.7%)	40 (50.0%)	40 (50.0%)
<i>Aberdyfi 2014</i>	120	75 (62.5%)	35 (46.7%)	40 (53.3%)
<i>Aberdyfi 2015</i>	120	77 (64.2%)	35 (45.5%)	42 (54.5%)
<i>Aberdyfi 2016</i>	120	79 (65.8%)	36 (45.6%)	43 (54.4%)
<i>Aberdyfi 2017</i>	120	78 (65.0%)	36 (46.2%)	42 (53.8%)
<i>Abermaw 2011</i>	140	94 (67.1%)	57 (60.6%)	37 (39.4%)
<i>Abermaw 2012</i>	140	91 (65.0%)	55 (60.4%)	36 (39.6%)
<i>Abermaw 2013</i>	140	92 (65.7%)	55 (59.8%)	37 (40.2%)
<i>Abermaw 2014</i>	140	82 (58.6%)	54 (65.9%)	28 (34.1%)
<i>Abermaw 2015</i>	140	93 (66.4%)	63 (67.7%)	30 (32.3%)
<i>Abermaw 2016</i>	140	88 (62.9%)	60 (68.2%)	28 (31.8%)
<i>Abermaw 2017</i>	140	86 (61.4%)	59 (68.6%)	27 (31.4%)
<i>Porthmadog 2011</i>	238	173 (72.7%)	123 (71.1%)	50 (28.9%)
<i>Porthmadog 2012</i>	238	164 (72.7%)	38 (23.2%)	126 (76.8%)
<i>Porthmadog 2013</i>	238	162 (68.1%)	45 (27.8%)	117 (72.2%)
<i>Porthmadog 2014</i>	238	157 (66.0%)	44 (28.0%)	113 (72.0%)
<i>Porthmadog 2015</i>	238	140 (58.8%)	44 (31.4%)	96 (68.6%)
<i>Porthmadog 2016</i>	238	129 (54.2%)	47 (36.4%)	82 (63.6%)
<i>Porthmadog 2017</i>	238	135 (56.7%)	54 (40.0%)	81 (60.0%)
<i>Pwllheli 2011</i>	181	121 (66.9%)	62 (51.2%)	59 (48.8%)
<i>Pwllheli 2012</i>	121	90 (74.4%)	31 (34.4%)	59 (65.6%)
<i>Pwllheli 2013</i>	114	84 (73.7%)	59 (70.2%)	25 (29.8%)
<i>Pwllheli 2014</i>	114	91 (79.8%)	47 (51.6%)	44 (48.4%)
<i>Pwllheli 2015</i>	114	87 (76.3%)	57 (65.5%)	30 (34.5%)
<i>Pwllheli 2016</i>	114	58 (50.9%)	27 (46.6%)	31 (53.4%)
<i>Pwllheli 2017</i>	81	60 (74.1%)	28 (46.7%)	32 (53.3%)

<i>Hafan 2011</i>	410	363 (88.5%)	78 (21.5%)	285 (78.5%)
<i>Hafan 2012</i>	410	339 (82.7%)	75 (22.1%)	264 (77.9%)
<i>Hafan 2013</i>	410	302 (73.7%)	68 (22.5%)	234 (77.5%)
<i>Hafan 2014</i>	409	293 (71.6%)	51 (17.4%)	242 (82.6%)
<i>Hafan 2015</i>	409	292 (71.4%)	56 (19.2%)	236 (80.8%)
<i>Hafan 2016</i>	409	287 (70.1%)	55 (19.2%)	232 (80.8%)
<i>Hafan 2017</i>	409	306 (74.8%)	57 (18.6%)	249 (81.4%)
<i>Doc Fictoria 2011</i>	48	48 (100.0%)	17 (35.4%)	31 (64.6%)
<i>Doc Fictoria 2012</i>	100	97 (97.0%)	32 (33.0%)	65 (67.0%)
<i>Doc Fictoria 2013</i>	100	100 (100.0%)	27 (27.0%)	73 (73.0%)
<i>Doc Fictoria 2014</i>	100	100 (100.0%)	25 (25.0%)	75 (75.0%)
<i>Doc Fictoria 2015</i>	100	100 (100.0%)	21 (21.0%)	79 (79.0%)
<i>Doc Fictoria 2016</i>	100	92 (92.0%)	19 (20.7%)	73 (79.3%)
<i>Doc Fictoria 2017</i>	100	92 (92.0%)	16 (17.4%)	76 (82.6%)

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit
Cyfanswm wedi Cofrestru Badau Dwr Personol - Total number of Personal Watercraft Registrations

<i>Blwyddyn Year</i>	<i>Harbwr Aberdyfi Harbour</i>	<i>Harbwr Abermaw Harbour</i>	<i>Harbwr Porthmadog Harbour</i>	<i>Harbwr Pwllheli/ Hafan</i>	<i>Morfa Bychan</i>	<i>Traethau Gwynedd Beaches</i>	<i>Swyddfa Office</i>	<i>Cyfanswm Total</i>
2012	9 Aberdyfi	37 Abermaw 7 Caerddaniel	25	7	85	53 Abersoch 2 Machroes 6 Morfa Nefyn 3 Nefyn 1 Trefor	390	625
2013	16 Aberdyfi 10 Tywyn	55 Abermaw 6 Caerddaniel	36	2 Harbwr 23 Hafan	129	85 Abersoch 4 Machroes 6 Morfa Nefyn 8 Nefyn 2 Trefor 4 Aberdaron	308	694
Tud. 17 2014	22 Aberdyfi 1 Tywyn	65 Abermaw 5 Caerddaniel	20	36 Total Boat Care 1 Harbwr 47 Hafan	143	88 Abersoch 5 Machroes 3 Morfa Nefyn 6 Nefyn 1 Aberdaron	250	693
2015	23 Aberdyfi 1 Tywyn	64 Abermaw a Caerddaniel	30	42 Total Boat Care 43 Hafan	157	76 Abersoch 1 Machroes 9 Morfa Nefyn 6 Nefyn 1 Aberdaron	243	696
2016	27 Aberdyfi 4 Tywyn	69 Abermaw	35	49 Total Boat Care 56 Hafan	183	101 Abersoch 20 Machroes 4 Morfa Nefyn 10 Nefyn 2 Aberdaron	174	734
2017	28 Aberdyfi 6 Tywyn	68 Abermaw	45	55 Total Boat Care 65 Hafan	165	122 Abersoch 10 Machroes 12 Morfa Nefyn 10 Nefyn 1 Aberdaron	151	738

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit
Cyfanswm wedi Cofrestru Cychod Pŵer - Total number of Powerboat Registrations

<i>Blwyddyn Year</i>	<i>Harbwr Aberdyfi Harbour</i>	<i>Harbwr Abermaw Harbour</i>	<i>Harbwr Porthmadog Harbour</i>	<i>Harbwr Pwllheli Harbour</i>	<i>Morfa Bychan</i>	<i>Traethau Gwynedd Beaches</i>	<i>Swyddfa Office</i>	<i>Cyfanswm Total</i>
2012	23 Aberdyfi 4 Tywyn	48 Abermaw 18 Caerddaniel	23	23	8	70 Abersoch 4 Machroes 13 Trefor 14 Nefyn 25 Morfa Nefyn	604	877
2013	27 Aberdyfi 9 Tywyn	54 Abermaw 11 Caerddaniel	22	16 Harbwr 60 Hafan	22	92 Abersoch 14 Machroes 22 Trefor 17 Nefyn 24 Morfa Nefyn 38 Aberdaron	553	981
2014	54 Aberdyfi 8 Tywyn	64 Abermaw 11 Caerddaniel	24	118 Total Boat Care 8 Harbwr 85 Hafan	19	115 Abersoch 3 Machroes 30 Morfa Nefyn 14 Nefyn 21 Trefor 19 Aberdaron	408	1001
2015	52 Aberdyfi 3 Tywyn	71 Abermaw a Caerddaniel	30	99 Total Boat Care 5 Harbwr 104 Hafan	14	92 Abersoch 4 Machroes 23 Morfa Nefyn 13 Nefyn 16 Trefor 12 Aberdaron	449	987
2016	58 Aberdyfi 7 Tywyn	81 Abermaw	37	115 Total Boat Care 4 Harbwr 119 Hafan	31	101 Abersoch 71 Machroes 27 Morfa Nefyn 14 Nefyn 10 Aberdaron	336	1011
2017	53 Aberdyfi 9 Tywyn	66 Abermaw	37	103 Total Boat Care 3 Harbwr 117 Hafan	29	125 Abersoch 40 Machroes 48 Morfa Nefyn 19 Nefyn 11 Aberdaron 6 Trefor	289	955

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig

Ystadegau Cychod Pŵer v's Cychod Hwyllo a Rhestr Aros - Powerboats v's Sailing Boats and Waiting List

<i>Harbwr/Harbour Marina</i>	<i>Cyfanswm Nifer Angorfeydd Total number available moorings</i>	<i>Cyfanswm Cychod ar Angorfeydd Total number of boats on mooring</i>	<i>Nifer Cychod Pŵer Total number Powerboats</i>	<i>Nifer Cychod Hwyllo Total number sailing boats</i>	<i>Canran (%) Pŵer V's hwyllo Percentage Power v's Sail</i>
Harbwr Aberdyfi 12	120	86	54	32	62.8% Pwer 37.2% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 13	120	80	54	26	67.5% Pwer 32.5% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 14	120	75	53	22	70.7% Pwer 29.3% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 15	120	77	53	24	68.8% Pwer 31.2% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 16	120	79	55	24	69.6% Pwer 30.4% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 17	120	78	56	22	71.8% Pwer 28.2% Hwyllo
Harbwr Abermaw 12	140	91	57	34	62.6% Pwer 37.4% Hwyllo
Harbwr Abermaw 13	140	92	62	30	67.4% Pwer 32.6% Hwyllo
Harbwr Abermaw 14	140	82	54	28	65.9% Pwer 34.1% Hwyllo
Harbwr Abermaw 15	140	93	60	33	64.5% Pwer 35.5% Hwyllo
Harbwr Abermaw 16	140	88	59	29	67.0% Pwer 33.0% Hwyllo
Harbwr Abermaw 17	140	86	55	31	64.0% Pwer 36.0% Hwyllo
Harbwr Porthmadog 12	238	164	57	107	34.8% Pwer 65.2% Hwyllo
Harbwr Porthmadog 13	238	162	59	103	36.4% Pwer 63.6% Hwyllo
Harbwr Porthmadog 14	238	157	54	103	34.4% Pwer 65.6% Hwyllo

Tud. 19






	Harbwr Porthmadog 15	238	140	45	95	32.1% Pwer 67.9% Hwyllo
	Harbwr Porthmadog 16	238	129	41	88	31.8% Pwer 68.2% Hwyllo
	Harbwr Porthmadog 17	238	135	42	93	31.1% Pwer 68.9% Hwyllo
	Harbwr Pwllheli 12	126	90	33	57	36.7% Pwer 63.3% Hwyllo
	Harbwr Pwllheli 13	114	87	39	48	44.8% Pwer 55.2% Hwyllo
	Harbwr Pwllheli 14	114	91	36	55	39.6% Pwer 60.4% Hwyllo
	Harbwr Pwllheli 15	114	87	46	41	52.9% Pwer 47.1% Hwyllo
	Harbwr Pwllheli 16	114	58	18	40	31.0% Pwer 69.0% Hwyllo
	Harbwr Pwllheli 17	114	60	19	41	31.7% Pwer 68.3% Hwyllo
Tud. 20	Hafan Pwllheli 12	410	339	174	165	51.3% Pwer 48.7% Hwyllo
	Hafan Pwllheli 13	410	302	153	149	50.7% Pwer 49.3% Hwyllo
	Hafan Pwllheli 14	409	293	139	154	47.4% Pwer 52.6% Hwyllo
	Hafan Pwllheli 15	409	292	138	154	47.3% Pwer 52.7% Hwyllo
	Hafan Pwllheli 16	409	287	137	150	47.7% Pwer 52.3% Hwyllo
	Hafan Pwllheli 17	409	306	144	162	47.1% Pwer 52.9% Hwyllo
	Doc Fictoria 12	100	97	39	58	40.2% Pwer 59.8% Hwyllo
	Doc Fictoria 13	100	100	37	63	37.0% Pwer 63.0% Hwyllo
	Doc Fictoria 14	100	100	36	64	36.0% Pwer 64.0% Hwyllo
	Doc Fictoria 15	100	98	34	64	34.7% Pwer 65.3% Hwyllo
	Doc Fictoria 16	100	92	34	58	37.0% Pwer

					63.0% Hwyllo
Doc Fictoria 17	100	92	28	64	30.4% Pwer 69.6% Hwyllo
Cyfanswm 12	1134	867	414	453	47.8% Pwer 52.2% Hwyllo
Cyfanswm 13	1122	823	416	407	50.5% Pwer 49.5% Hwyllo
Cyfanswm 14	1121	798	372	426	46.6% Pwer 53.4% Hwyllo
Cyfanswm 15	1121	787	376	411	47.8% Pwer 52.2% Hwyllo
Cyfanswm 16	1121	733	344	389	46.9% Pwer 53.1% Hwyllo
Cyfanswm 17	1121	757	344	413	45.4% Pwer 54.6% Hwyllo

HARBWR ABERDYFI HARBOUR

Cymhariaeth o Ystadegau Cychod Comparison of Boat Statistics

	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Nifer o Gychod / Number of Boats	86	80	75	77	79	78
Cyfanswm Hydoedd / Total LOA	585.54	532.01	491.79	520.12	524.10	515.02
Cyfartaledd Hyd / Average Length	6.81	6.65	6.56	6.75	6.63	6.60
Cyfanswm Dyfnder / Total Draught	72.06	62.62	57.55	58.79	57.36	58.60
Cyfartaledd Dyfnder / Average Draught	0.84	0.78	0.77	0.76	0.73	0.75



CYMHARIAETH O YSTADEGAU CYCHOD YM MHOB HARBWR 2017


COMPARISON OF BOAT STATISTICS AT EACH HARBOUR 2017




Harbwr Harbour	Nifer o Gychod Number of Boats	Cyfanswm Hydoedd Total Overall Length	Cyfartaledd Hyd Average Length	Cyfanswm Dyfnder Total Draught	Cyfartaledd Dyfnder Average Draught
Abermaw	86	606.63	7.01	74.56	0.87
Aberdyfi	78	515.02	6.60	58.60	0.75
Porthmadog	135	1098.58	8.14	133.18	0.99
Porthelli	60	457	7.62	53.58	0.97
Cyfansymiau holl harbrau Totals of all harbours	359	2677.23	29.37	319.92	3.58
Cyfartaleddau holl harbrau Averages of all harbours	89.75	669.31	7.34	79.98	0.90

Darlun o ystadegau cychod ym mhob harbwr. Analysis of boat statistics at each harbour.

Nifer o Gychod / Number of Boats




Cyfanswm Hyd / Total LOA



Cyfartaledd Hyd / Average LOA


Tud. 24

Metrau / Metres




Cyfanswm Dyfnder / Total Draught

Metrau / Metres



Metrau / Metres



Phone 01654 767626
 Mobile 07879 433148

Aberdyfi Harbour

Mehefin/June 2017
 VHF CH12 & CH16

Please contact the harbour office at the outer buoy for any updates to this chart.

Although passable both sides, it is recommended to pass the YSM on your starboard side on approach and Port on departure.

Harbour Masters Office

Visitors Moorings

YSM
 Fl.Y.2s

No 7
 Fl.G.2s

No 5
 Fl.G.4s


South Spit
 Qk Fl.G

No 2
 Fl.R.5s

Bar Buoy
 Fl.G.5s

N ↑


 Aberdyfi Outer
 Iso W.4s



Outer Buoy	Lat 52° 32.000'N	Long 004° 05.550'W
------------	------------------	--------------------

Bar Buoy No1	Lat 52° 32.257'N	Long 004° 04.914'W
--------------	------------------	--------------------

Bar Buoy No2	Lat 52° 32.261'N	Long 004° 04.989'W
--------------	------------------	--------------------

No3 South Spit	Lat 52° 32.290'N	Long 004° 04.637'W
----------------	------------------	--------------------

No5	Lat 52° 32.198'N	Long 004° 04.053'W
-----	------------------	--------------------

No7	Lat 52° 32.256'N	Long 004° 03.408'W
-----	------------------	--------------------

YSM 4 Knots	Lat 52° 32.469'N	Long 004° 02.861'W
-------------	------------------	--------------------

williamstockford@gwynedd.llyw.cymru

Tud. 25

Porthmadog-TEP`s (Time Expired Pyrotechnics)	
Nifer/Amount	<i>Math Fflach / Type of flare</i>
50	Parachute - red
3	Parachute - white
56	Hand held - red
6	Hand held - white
34	Hand held - orange smoke
7	Floating canister – orange smoke
3	Packs of mini flares (8)
0	Others
159	TOTAL
Dyddiad/Date	21/03/2017

Pwllheli-Harbwr a Hafan -TEP`s (Time Expired Pyrotechnics)	
Nifer/Amount	<i>Math Fflach / Type of flare</i>
212	Parachute - red
18	Parachute - white
251	Hand held - red
44	Hand held - white
154	Hand held - orange smoke
33	Floating canister – orange smoke
8	Packs of mini flares (8)
0	Others
719	TOTAL
Dyddiad/Date	21/03/2017

Abermaw -TEP`s (Time Expired Pyrotechnics)	
Nifer/Amount	<i>Math Fflach / Type of flare</i>
34	Parachute - red
0	Parachute - white
0	Hand held - red
0	Hand held - white
0	Hand held - orange smoke
0	Floating canister – orange smoke
0	Packs of mini flares (8)
0	Others
34	TOTAL
Dyddiad/Date	21/03/2017

Aberdyfi-TEP`s (Time Expired Pyrotechnics)	
Nifer/Amount	<i>Math Fflach / Type of flare</i>
22	Parachute - red
0	Parachute - white
22	Hand held - red
1	Hand held - white
20	Hand held - orange smoke
1	Floating canister – orange smoke
4	Packs of mini flares (8)
0	Others
70	TOTAL
Dyddiad/Date	21/03/2017

Tud. 26

